**Crynodeb o Gyfarfod o Fwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 462**
Cynhaliwyd yn yr Egin

10.00, 09 Mawrth 2023

---

**Cofnodion**

| **Aelodau oedd yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Rhodri Williams | RhW | (Cadeirydd y Bwrdd) |
| Guto Bebb | GB | (Aelod Anweithredol) |
| Adele Gritten | AG | (Aelod Anweithredol) (hyd at eitem 15) |
| Denise Lewis Poulton | DLP | (Aelod Anweithredol) |
| Suzy Davies | SuD | (Aelod Anweithredol) – yn rhithiol |
| Chris Jones | CJ | (Aelod Anweithredol) |
| Siân Doyle | SD | (Prif Weithredwr) |
| Llinos Griffin-Williams | LlGW | (Prif Swyddog Cynnwys) – yn rhithiol (hyd at eitem 10) |
| Elin Morris | EM | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| **Eraill oedd yn bresennol:** | | |
| Geraint Evans | GE | (Cyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi) |
| Geraint Pugh | GP | (Ysgrifennydd Bwrdd S4C) |
| Bethan C. Williams | BCW | (Cynorthwy-ydd i Ysgrifennydd y Bwrdd) – yn rhithiol |
| Sharon Winogorski | ShW | (Prif Swyddog Cyllid) – yn rhithiol (ar gyfer eitemau 3 a 4) |
| Eilir Jones | EJ | (Pennaeth Ymchwil) (ar gyfer eitem 6) |
| Dyfrig Davies | DD | (Cadeirydd, TAC) (ar gyfer eitem 9) |
| Sioned Haf Roberts | SHR | (Rheolydd Cyffredinol, TAC) (ar gyfer eitem 9) |
| Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | | |

---

**Materion a godwyd gan y Cadeirydd, a datganiadau diddordeb**

Croesawodd Cadeirydd y Pwyllgor bawb i'r cyfarfod.

Gofynnodd i unrhyw Aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau perthnasol. Nodwyd serch hynny bod aelodau wedi nodi diddordebau parhaol mewn perthynas â'u haelodaeth o'r Bwrdd.

Llongyfarchwyd DLP ar ei phenodiad fel Cadeirydd Bwrdd Cronfa Dreftadaeth y Loteri yng Nghymru, a chynrychiolydd Cymru ar fwrdd y Gronfa yn y Deyrnas Unedig. Byddai'n diweddaru ei datganiad sefydlog o fuddiannau, ac fe atgoffwyd pawb i sicrhau bod eu datganiadau buddiant cyffredinol hwythau yn gyfredol.

Aelodaeth o'r Bwrdd

Tra ar ymweliad â Llundain ddiwedd mis Chwefror, fe gwrddodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gyda Robert Specterman-Green er mwyn pwysleisio'r angen i'r DCMS fynd ati i benodi aelodau anweithredol ychwanegol i'r Bwrdd Unedol.

Strwythur y DCMS

Wrth gwrdd gydag RSG, trafodwyd hefyd y diwygiadau diweddar i strwythur y DCMS, oedd wedi gweld cyfrifoldeb dros faterion digidol yn trosglwyddo i adran newydd oddi fewn i Lywodraeth y DU.

| | |
|---|---|
| **Strategaeth 2022 – adolygu cynnydd 2022–23, a blaenoriaethau 2023–24**<br><br>Adroddwyd fod y Tîm Rheoli wedi cael cwrdd i ffwrdd yn Llangrannog er mwyn gwerthuso blwyddyn gyntaf y Strategaeth ac ystyried blaenoriaethau'r cyfnod nesaf. Cyflwynwyd canlyniad yr adolygiad hwn i'r Bwrdd gan SD, ac fe amlinellodd y blaenoriaethau arfaethedig.<br><br>Holodd AG beth ydy'r trefniadau diweddaraf o ran cydweithio gyda BARB. Adroddodd SD ein bod wedi ail-ymrwymo efo BARB am y 4-5 mlynedd nesaf, ond wedi cytuno ar newidiadau i gyfansoddiad y panel i sicrhau ei fod yn adlewyrchu ein cynulleidfa ni yn well, ac y byddai modd mesur cynulleidfaoedd sy'n gwylio ar wahanol blatfformau i'r dyfodol.<br><br>Yn ogystal, cynhaliwyd sesiwn ar arwain trawsnewid sefydliadol yn ystod y cwrdd i ffwrdd y Tîm Rheoli. Un o'r prif amcanion a drafodwyd oedd y gwaith o sicrhau fod yr haen o reolwyr o dan y Tîm Rheoli yn gryfach, gyda chylch gorchwyl penodol a chlir ar gyfer Tîm Trawsnewid newydd.<br><br>Croesawodd CJ y syniad o gael Tîm Trawsnewid cryf, fel bod modd i'r sefydliad cyfan ddeall yn union beth ydy'r newidiadau sydd yn digwydd a beth sydd angen i bawb ei wneud. | |
| **Penderfyniad: Y byddai adroddiad ar y trefniadau newydd a gytunwyd gyda BARB yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd.** | SD |
| **Penderfyniad: Cymeradwywyd y blaenoriaethau strategol ar gyfer 2023–24.** | SD |
| **Cymeradwyo Cyllideb 2023–24 (a'r cynllun ariannol pum mlynedd)**<br><br>Cyflwynodd ShW y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2023–24 ynghyd a'r cynlluniau ariannol ar gyfer y bum mlynedd nesaf. Amlinellodd ShW y tybiaethau oedd yn sail i'r gyllideb – gan gynnwys mewn perthynas â chwyddiant, a chostau un-tro ar gyfer gweithgareddau penodol dros y blynyddoedd nesaf.<br><br>Atodwyd copi o'r dashfwrdd costau cynnwys diweddaraf ar gyfer 2023–24. Nodwyd fod dal peth bwysau ar y gyllideb cynnwys, ond bod camau perthnasol yn cael eu cymryd i gadw oddi fewn i'r gyllideb, gyda'r opsiwn i ddal yn ôl ar ddyddiadau darlledu pe byddai angen.<br><br>Holwyd os oedd unrhyw ail-flaenoriaethu gwariant ar gynnwys yn sgil effaith chwyddiant ar wahanol genres. Nodwyd fod pob rhan o'r gyllideb cynnwys wedi'i mesur yn erbyn y strategaeth, gan ganolbwyntio ar chwaraeon, drama a rhaglenni plant.<br><br>Er heriau presennol chwyddiant, cytunwyd gyda SD na ddylem wyro oddi wrth y strategaeth, a bod angen parhau i wireddu'r strategaeth yn ei chyfanrwydd – yn enwedig yr elfen o ddatblygu ein llwyfannau newydd. | |
| **Penderfyniad: Cymeradwywyd y gyllideb ar gyfer 2023–24.** | ShW |
| **Trefniadau llywodraethiant S4C Masnachol**<br><br>Yng nghyfarfod y Bwrdd Masnachol ar 15 Chwefror 2023, fe gymeradwywyd diwygiadau arfaethedig i drefniadau llywodraethiant S4C Masnachol, er mwyn hwyluso cyflawni'r strategaeth fasnachol newydd. Amlinellodd EM y trefniadau llywodraethiant arfaethedig, gan esbonio'r berthynas rhwng y gwahanol gyrff fydd yn ymwneud â materion masnachol a'r trothwyon ar gyfer cymeradwyo buddsoddiadau.<br><br>Gwnaeth y Bwrdd Masnachol hefyd ystyried diweddariad cyffredinol ar weithredu'r strategaeth fasnachol newydd, oedd yn cynnwys amlinelliad o sut y disgwylir y bydd yr incwm masnachol yn cael ei ddefnyddio. Byddai rhagolygon manylach am lefel yr incwm yn cael eu paratoi wrth ddatblygu cynllun busnes pum mlynedd y gweithgareddau masnachol yn sgil y strategaeth newydd. | |
| **Penderfyniad: Cymeradwywyd y trefniadau llywodraethiant newydd, gan gynnwys y trothwyon canlynol ar gyfer cymeradwyo buddsoddiadau masnachol (gan gydnabod y bydd cyrff eraill yn sgriwtineiddio'r cynlluniau cyn y cymeradwyaeth terfynol):**<br><br>**Hyd at £250k – Prif Weithredwr**<br>**£250k i £500k – Bwrdd Masnachol**<br>**Dros £500k – Bwrdd Unedol** | EM |
| **Penderfyniad: Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Unedol ar aelodaeth y Bwrdd Masnachol er mwyn sicrhau bod y sgiliau perthnasol ar gael i gynghori ar weithredu'r Strategaeth Fasnachol newydd.** | EM |
| **Datganiad o Bolisi Rhaglenni 2023–24**<br><br>Roedd angen i'r Bwrdd gyhoeddi'r Datganiad Polisi Rhaglenni er mwyn cwrdd â gofynion Ofcom. Byddai'r testun hefyd yn cael ei gyhoeddi fel rhan o Adroddiad Blynyddol 2022–23. | |

| | |
|---|---|
| Roedd y Pwyllgor Cynnwys eisoes wedi ystyried y drafft o'r Datganiad Polisi Rhaglenni, ac wedi argymell bod y Bwrdd yn ei gymeradwyo.<br><br>Ymysg y blaenoriaethau cynnwys yn ystod 2023–24 oedd comisiynu cynnwys a fyddai'n apelio i'r grŵp oedran 22 – 44, a gwylwyr C2DE. Ychwanegodd LlGW fod rhaid i bob comisiwn frwydro am ei le, gan obeithio anelu at fwy nag un garfan o'r boblogaeth.<br><br>Roedd teimlad cyffredinol fod llawer o'n cynnwys ni wedi'i anelu at yr un math o gynulleidfa, felly mae ymgais i geisio cael cyfresi sy'n targedu mwy o'r gymdeithas ehangach, gan gynnwys ceisio denu'r grŵp C2DE. Rydym yn dechrau gweld fod cynulleidfa newydd yn dod atom yn sgil y newidiadau a gyflwynwyd dros y misoedd diwethaf.<br><br>Nododd LlGW ei bod yn her i dargedu cartrefi cymysg lle gallen ni wneud cynnwys i bawb wylio ar y cyd. Roedd rhai ardaloedd hefyd yn profi'n heriol, megis ardaloedd gogledd ddwyrain ac ardaloedd sy'n agos i'r ffin. Roedd GB am wneud y pwynt nad ydy'r elfen ddaearyddol ar draws gogledd Cymru yn broblem. Mae cysylltiadau agos ar draws y gogledd, ac mae modd apelio ar draws y gogledd gyda'r un cynnwys.<br><br>Roedd SuD am geisio deall beth ydy'r strategaeth ar gyfer swyddogion newydd cyfathrebu a marchnata, o ran y gynulleidfa graidd sydd ddim yn rhan o'n blaenoriaethau. Nododd SD fod bwriad i barhau i hyrwyddo'r holl raglenni, ond bod cynlluniau i edrych yn fanwl ar ein systemau hyrwyddo a sut i ddod a mwy o gynulleidfa i'r sianel.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r Datganiad Polisi Rhaglenni 2024–24, i'w gyhoeddi ar wefan S4C (i gydymffurfio â gofynion Ofcom) ac i'w gynnwys yn Adroddiad Blynyddol S4C ar gyfer 2022–23.** | GP |
| **Cyflwyniad: Gweithgareddau i ganfod barn y gynulleidfa**<br><br>Cyflwynodd EJ y trefniadau sydd gan S4C ar gyfer mynd ati i ganfod barn y gynulleidfa ar ein cynnwys. Mae'r ystod o weithgareddau yn cwmpasu'r panel ymateb, BARB, a phaneli megis y Panel Amrywiaeth newydd. Esboniwyd hefyd y cyfrifoldeb sydd ar y Bwrdd yn Neddf Darlledu 1990 i sicrhau bod trefniadau addas mewn lle.<br><br>Nodwyd fod barn gyffredinol am S4C wedi gwella eleni, yn arbennig yn yr oedran o dan 65. Fodd bynnag, roedd gwylio cynnwys S4C yn parhau'n isel ar aelwydydd cymysg eu hiaith. Roedd hefyd yn anodd canfod barn siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn ein gwylio.<br><br>Holwyd ynglŷn â'r panel ymateb, a sut mae mynd ati i ddewis panelwyr. Eglurodd EJ fod cwmni allanol yn gwahodd y panelwyr, gan geisio cael trawsdoriad eang o gymdeithas Cymru.<br><br>Nodwyd fod gwaith eto'i wneud efo'r panel, er mwyn gwella gwerth mae'n cynnig i ni. Trafodwyd y posibilrwydd o ganfod barn aelodau'r panel ar gynnwys S4C cyn iddo gael ei gyhoeddi, ond fe nodwyd bod hi'n bwysig cael adborth ar gyfres gyfan gan nad yw'r rhaglen gyntaf bob tro yn cynnig adlewyrchiad teg o'r gyfres. | |
| **Adroddiad y Prif Weithredwr**<br><br>Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad, gan amlinellu'r cynlluniau a'r cyfarfodydd oedd wedi digwydd dros y cyfnod.<br><br><u>Penodiadau i'r timoedd Cyfathrebu a Marchnata</u><br><br>Roedd swydd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata wedi ei hysbysebu, ac fe fyddai'r cyfweliadau yn cael eu cynnal yn fuan. Mae nifer wedi ymgeisio am swyddi Arweinydd a Swyddog Cyfathrebu, ac fe nodwyd fod safon yr ymgeiswyr yn dda iawn. Bydd Pennaeth Marchnata newydd yn cychwyn ym mis Ebrill yn dilyn cyfweliadau ar gyfer y swydd honno.<br><br><u>Amrywiaeth</u><br><br>Roedd y broses i benodi Arweinydd Amrywiaeth, Cynaliadwyedd a Phwrpas Cymdeithasol yn parhau.<br><br>Mae cyfarfod cyntaf o'r Panel Amrywiaeth wedi digwydd a chafwyd adroddiadau cadarnhaol am y cam i'r cyfeiriad cywir. Bydd y panel nesaf yn trafod anabledd. Holodd SuD oni fyddai'n well syniad cael Panel sy'n cynrychioli'r holl garfannau amrywiol rhag ein bod yn colli rhywbeth? Roedd hefyd yn awyddus i dderbyn cofnodion o gyfarfodydd y Panel.<br><br><u>Cynnwys</u><br><br>Amlinellodd LlGW y blaenoriaethau cynnwys dros y misoedd nesaf, a'r cynyrchiadau oedd ar fin cychwyn.<br><br><u>Asesiad Effaith Economaidd a Chymdeithasol S4C</u> | |

| | |
|---|---|
| Nodwyd fod tendr wedi'i gyhoeddi ond, er bo saith cwmni wedi cael gwahoddiad, nad oedd unrhyw gais wedi ei dderbyn oedd yn gallu cyflawni'r asesiad oddi fewn i'r amserlen arfaethedig. Nododd GB ei siom yn hyn o beth.<br><br>Eglurwyd mai'r cynllun gwreiddiol oedd cynnwys canlyniadau'r asesiad yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf, ond na fyddai hynny'n bosib bellach. Y bwriad felly oedd ail-gychwyn y broses dendro ac estyn y cyfnod ar gyfer cwblhau'r asesiad er mwyn cyhoeddi adroddiad ar wahân ar gyfraniad S4C i economi a chymdeithas Cymru yn ystod yr hydref. | |
| **Digwyddiadau Byw 2023**<br><br>Cyflwynodd SD adroddiad oedd yn amlinellu'r cynlluniau ar gyfer presenoldeb S4C mewn digwyddiadau byw yn ystod yr haf. Roedd bwriad i gael presenoldeb mewn mwy o ddigwyddiadau eleni, gan gynnwys Eisteddfod yr Urdd, y Sioe, Eisteddfod Genedlaethol, Tafwyl, Green Man a Pride.<br><br>Mae gwariant sylweddol ar y digwyddiadau, ac mae SD yn awyddus i geisio sicrhau ein bod yn cael gwell gwerth o'n presenoldeb yn y digwyddiadau hyn. Roedd hefyd angen sicrhau bod y cynnwys yn bwrpasol i'n cynulleidfa ni.<br><br>O ran trefniadau yn ystod Eisteddfod yr Urdd, penderfynwyd na fyddai'n briodol llogi adeilad penodol i leoli stondin S4C, felly mae bwriad i rannu big top efo'r Urdd er mwyn cynnal sioe Cyw, a defnyddio'r compownd darlledu fel safle corfforaethol S4C. Bydd presenoldeb hefyd yn y fynedfa. Gobeithir y bydd modd gwneud digwyddiad addysg yn ystod yr wythnos, a bydd S4C yn hollol weledol yn ystod yr wythnos.<br><br>Yn yr un modd efo'r Steddfod Genedlaethol, efo Pentre Plant ar gyfer Cyw, ynghyd ag ieuenctid ar Lwyfan y Maes.<br><br>Nododd SuD bod Llywodraeth Cymru yn ail-edrych ar dymhorau ysgol, ac y gall hynny gael effaith ar amseru digwyddiadau megis Y Sioe a'r Urdd i'r dyfodol. | |
| [ymunodd Dyfrig Davies a Sioned Haf Roberts]<br><br>**Cyfarfod gyda chynrychiolwyr TAC**<br><br>Roedd yn draddodiad i'r Bwrdd Unedol gwrdd yn flynyddol gyda chynrychiolwyr TAC. Diolchodd RhW felly i Dyfrig Davies a Sioned Haf Roberts am deithio i'r Egin i gyfarfod y Bwrdd, ac fe'u croesawyd i'r cyfarfod.<br><br>Cyflwynodd DD gefndir i waith TAC, a nodwyd fod tanysgrifiadau aelodaeth TAC wedi mynd i fyny.<br><br>Adroddwyd fod perthynas dda rhwng TAC ac S4C, a bod cyfarfodydd cyson bob deufis gyda'r swyddogion. Roedd hyn yn cynnig fforwm da i drafodaeth agored, yn hytrach nag ond cysylltu pan fo angen ymateb i gwynion.<br><br>Yn ogystal â'r ymwneud trwy TAC, roedd croeso mawr i'r ffaith fod S4C yn ymweld â phob cwmni yn unigol i drafod effaith chwyddiant, roedd hynny'n cael ei werthfawrogi'n fawr.<br><br>Rhoddodd SHR ddiweddariad ar y cyrsiau sydd wedi'u cynnal gan TAC (mewn partneriaeth yn aml gydag S4C a chyrff eraill) dros y flwyddyn, a nodwyd bod holiadur blynyddol diweddar a rannwyd gydag aelodau TAC wedi casglu adborth ynghylch anghenion hyfforddiant ehangach y diwydiant i'r dyfodol.<br><br>O gofio pa mor llwyddiannus oedd Cyfle yn y gorffennol o ran hyfforddi ac annog pobl ifanc i'r sector, holodd GB tybed oedd modd i TAC lenwi'r bwlch a adawyd. Roedd DD hefyd yn credu fod Cyfle yn system dda iawn, ond yn anffodus roedd yn system ddrud iawn, ac felly nid oedd yn teimlo fod y capasiti yno ar hyn o bryd. Y gobaith ydy ceisio darparu hyfforddiant drwy bartneriaethau megis colegau, prentisiaethau ac yn y blaen. Esboniodd DD bod trafodaethau hefyd ar y gweill i drafod prentisiaethau, gyda'r posibilrwydd o rannu prentisiaid rhwng gwahanol gwmnïau.<br><br>**Penderfyniad: TAC i rannu dadansoddiad o'r holiadur a ddanfonwyd i'r sector yn ddiweddar.**<br><br>Mae TAC wedi sefydlu is-bwyllgor technegol ar y cyd efo S4C yn ddiweddar, gyda Rhys Bevan yn bwydo mewn gydag unrhyw anawsterau, a thechnegwyr yn mynd fewn i Sgwâr Canolog er mwyn cael deall yn well unrhyw broblemau sy'n gallu deillio o, dyweder, cyfleu yn hwyr ac ati.<br><br>Yn ogystal, mae gwaith yr is-bwyllgor hawliau yn cael trafodaethau cyson gydag undebau Equity a Writer's Guild ac ati. Mi fydd cynnydd yn eu ffioedd o fis Ionawr, ac mae trafodaethau mawr i geisio cael cytundeb i weithio ar draws yr holl gynnwys. Gobeithir y bydd pawb yn dod i gytundeb yn fuan.<br><br>Holwyd sut ymateb oedd yna i'r broses gomisiynu newydd, a nododd DD nad oedd wedi derbyn ymateb hyd yma, ond ei fod yn croesawu'r ffaith fod trafodaethau am y cynnwys a rheoli disgwyliadau ar ddechrau'r | TAC |

| | |
|---|---|
| broses gomisiynu, yn hytrach na ychwanegu unrhyw newidiadau ar ddiwedd y broses, sydd yn tueddu i fod yn gostus.<br><br>Diolchodd RhW i'r ddau am eu cyflwyniad, ac fe'u hanogwyd i barhau gyda'r lobïo ar ran y sector yng Nghymru.<br><br>[gadawodd Dyfrig Davies, Sioned Haf Roberts, a Llinos Griffin-Williams y cyfarfod] | |
| **Ystyried gwerthusiad o effeithiolrwydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau**<br><br>Rhwng 30 Ionawr a 28 Chwefror 2023, gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd Unedol i gwblhau holiadur er mwyn cynnig adborth adeiladol ar drefniadau'r Bwrdd dros y flwyddyn adrodd ddiwethaf. Cyflwynodd GP adroddiad oedd yn crynhoi'r atebion a dderbyniwyd i'r holiadur hwnnw, yn ogystal â chanlyniadau'r holiaduron ar wahân ar gylchredwyd yn ystod Ionawr 2023 gyfer Pwyllgorau'r Bwrdd.<br><br>Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur y Bwrdd yn gymysg. Er bod y canlyniadau o ran y galluogwyr / ymddygiadau yn eithaf cyson gyda'r llynedd, roedd ymatebion ar ffurf testun rhydd wedi codi nifer o awgrymiadau y byddai'n ddefnyddiol i'r Bwrdd eu trafod ymhellach. Amlinellwyd yr awgrymiadau hyn yn yr adroddiad, ac fe'u trafodwyd gan aelodau'r Bwrdd.<br><br>Wrth grynhoi, nododd RhW y bydd modd mynd yn ôl at rai o'r pynciau yma yn ystod sesiwn gyda'r hwylusydd a hyfforddwr allanol, Ian White, yn ystod ein cwrdd i ffwrdd ym mis Ebrill.<br><br>Croesawodd CJ y bwriad i gynnal trafodaeth gyda chymorth Ian White ar rai o'r materion, gan nodi pwysigrwydd sicrhau bod y ffordd mae'r Bwrdd yn gweithredu yn ychwanegu gwerth wrth gefnogi'r Tîm Rheoli i weithredu'r Strategaeth. Roedd hi felly'n bwysig bod y Tîm Rheoli ehangach wedi derbyn gwahoddiad i fynychu'r sesiwn gydag Ian White yn ystod y cwrdd i ffwrdd.<br><br>**Penderfyniad: Bod GP yn rhannu copi o ganlyniadau'r holiadur gydag Ian White er mwyn sicrhau bod y pwyntiau perthnasol yn cael eu trafod yn ystod y sesiwn yn y cwrdd i ffwrdd.** | GP |
| **Cofnodion Cyfarfod Rhif 461 y Bwrdd (a gynhaliwyd 19.01.2023)**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Bwrdd, ac fe'u cymeradwywyd. | |
| **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu**<br><br>Nodwyd y gofrestr Pwyntiau Gweithredu. | |
| **Adroddiadau gan y Pwyllgorau**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau canlynol, ac fe wahoddwyd y cadeiryddion i dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion perthnasol nad oeddent eisoes wedi eu crybwyll yn ystod y cyfarfod hwn:<br>• Pobl a Thaliadau (a gynhaliwyd 09.02.23)<br>• Cyfathrebu (a gynhaliwyd 10.02.23)<br>• Cynnwys (a gynhaliwyd 16.02.23)<br>• Archwilio a Risg (a gynhaliwyd 16.02.23)<br><br>[gadawodd AG y cyfarfod] | |
| **Rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y 12 mis nesaf**<br><br>Nodwyd rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn nesaf. | |